

**COFNODION 'HEB EU CADARNHAU' O'R CYFARFOD ARBENNIG O
FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (BIP CTM)
CYNHALIWDYD AR Y 19EG O RAGFYR
YN NHŶ YNYSMEURIG, ABERCYNON**

YN BRESENNOL:

Marcus Longley	Cadeirydd
Sharon Hopkins	Y Prif Weithredwr (dros dro)
Maria Thomas	Yr Is-gadeirydd
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Paul Griffiths	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Keiron Montague	Aelod Annibynnol
Phillip White	Aelod Annibynnol
Anne Phillimore	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (dros dro)
Alan Lawrie	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Steve Webster	Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael
Liz Wilkinson	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol
Ruth Treharne	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad

YN Y CYFARFOD:

Cathy Moss	Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned CTM Cyngor Iechyd Cymuned CTM
Joanne Harris	Cyfarwyddwr Llywodraethiant
Georgina Galletly	Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd (dros dro) Cyfarwyddwr, Deloitte (Arsylwi)
John Murray	Cymhorthydd Annibynnol i'r Cadeirydd
David Jenkins	(Arsylwi)
Steve Combe	Cynghorydd Llywodraethiant Annibynnol
Wendy Penrhyn-Jones	Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

BIP/19/174

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, yn enwedig Cathy Moss a Joanne Harris, David Jenkins, Steve Combe ac aelodau o'r cyhoedd.

Esboniodd M Longley, o dan Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd, nad cyfarfod cyhoeddus oedd hwn, er ei fod yn cael ei gynnal mewn man cyhoeddus.. Dywedodd fod y Bwrdd yn croesawu adborth o ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd ynglŷn â'i wasanaethau, fodd bynnag.

BIP/19/175

YMDDIHEURIADAU ABSENOLDEB

Cafwyd **YMDDIHEURIADAU** gan John Beecher, Cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned CTM, a John Palmer, Prif Swyddog Gweithredol CTM, am eu habsenoldeb.

BIP/19/176

DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Nid oedd yr un datganiad o fuddiant.

BIP/19/177

YR ADRODDIAD ANNIBYNNOL YNGHYLCH SUT Y DELIWYD AG ADRODDIAD Y FYDWRAIG YMGYNGHOROL AR SECONDIAD AM WASANAETHAU MAMOLAETH YM MWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF

Croesawyd S Combe i'r cyfarfod. **DERBYNIWYD** adroddiad yn nodi canfyddiadau adolygiad o'r adroddiad uchod.

Cyflwynodd M Longley yr adroddiad gan roi crynodeb o gefndir comisiynu'r adroddiad, a wnaed ar ôl i'r Bwrdd ddod yn ymwybodol, ym mis Mawrth 2019, o fodolaeth Adroddiad y Fydwaig Ymgynghorol ar Secondiad, oedd yn codi cwestiynau am safon y gofal mamolaeth yn ogystal ag adrodd am ddigwyddiadau difrifol. Cyfeiriodd Longley aelodau'r Bwrdd at gylch gorchwyl yr adroddiad gan S Combe, a atodwyd i ganfyddiadau'r adroddiad. Canolbwyntiodd y rhain ar yr hyn yr oedd angen ei ddysgu, a'r ffyrdd y gellid gwella llywodraethu a threfniadau sicrwydd.

Yna, gwahoddodd M Longley S Combe i gyflwyno ei adroddiad. Diolchodd S Combe i'r Cadeirydd, a chyfeiriodd S Combe y Bwrdd at gylch gorchwyl yr adolygiad, yn Atodiad 1 yr adroddiad, oedd yn canolbwyntio ar adnabod gwersi i'w dysgu. Nododd S Combe fod yr adolygiad wedi adnabod nifer o fethiannau llywodraethu na chawsant eu dwyn i sylw'r Bwrdd, er iddynt gael eu dwyn i sylw'r Tîm Gweithredol.

O ran ei brif argymhellion, nododd ddau brif faes: Gwella diwylliant sefydliadol (gan gydnabod bod gwaith wedi dechrau ar hyn yn barod); a datblygu fframwaith uwchgyfeirio ar gyfer adroddiadau allanol i'r Bwrdd, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gwrando ar gleifion a staff a bod camau yn cael eu cymryd yn ôl y gofyn. Cyfeiriodd S Combe aelodau'r Bwrdd at yr argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad, gan nodi mai bwriad y rhain oedd cryfhau trefniadau llywodraethu.

Mynegodd aelodau'r Bwrdd eu gofid am yr hyn a ddigwyddodd, a gofynnont am eglurder gan S Combe am faterion penodol yn yr adroddiad, gan ddechrau trwy holi a ddylai'r Bwrdd fod wedi disgwyl cael gwybod am y diffygion yn y gwasanaeth mamolaeth yn y flwyddyn flaenorol ai peidio. Atebodd S Combe trwy ddweud bod rhai o'r problemau wedi cael eu codi gyda'r Bwrdd, er nad wnaed hyn mewn modd cysylltiedig. Pan ofynnwyd iddo a fyddai wedi disgwyl i'r problemau gael eu codi'n gynt, fe gadarnhaodd y byddai.

Er na lwyddodd yr adolygiad i gyrraedd consensws am y rheswm dros beidio ag uwchgyfeirio'r problemau at y Bwrdd, gofynnwyd i S Combe am ei farn ef am yr hyn a ddigwyddodd. Dywedodd nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ymgais fwriadol i gelu gwybodaeth. Ychwanegodd y gwelwyd Adroddiad y Fydwaig Ymgynghorol ar Secondiad ar ffurf 'drafft', a bod hynny'n esboniad posibl am yr oedi cyn dod at y Bwrdd. Yn ogystal, dywedodd S Combe ei bod yn bosibl bod y penderfyniad i ofyn i'r Colegau Brenhinol (Obstetreg, Gynaecoleg a Bydwagedd) wneud adroddiad ar y cyd am wasanaethau mamolaeth wedi dylanwadu ar hyn. O ystyried manylder yr adolygiad, mynegodd S Combe ei gred mai camfarnu oedd wedi digwydd, yn hytrach nag aflerwch neu weithred fwriadol i gelu gwybodaeth.

Rhoddodd Marcus Longley ar gofnod iddo dderbyn llythyr gan Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yr oedd wedi ei osod gerbron i bob aelod o'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfarfod, ac a oedd yn amlinellu'r materion a ystyriwyd yn adolygiad S Combe ac yn nodi dyfnder y pryder yn y gymuned leol am wasanaethau ieuchyd.

Mynegodd aelodau annibynnol eu siomedigaeth y bu oedi wrth ddwyn y problemau difrifol hyn i'w sylw, a effeithiodd ar eu gallu fel aelodau'r Bwrdd i gymryd y camau cywir mewn modd amserol. O ganlyniad, mynegodd yr aelodau fod eu gallu i ddiogelu lles defnyddwyr gwasanaethau wedi ei danseilio, ac fe ddadleuont y dylai gwaith pellach gael ei wneud i ddatrys y problemau a godwyd yn yr adolygiad.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.3b

Gofynnwyd i Steve Combe a gafodd y diffygion yn y gwasanaeth mamolaeth a godwyd gan adroddiad y Fydwaig Ymgynghorol ar Secondiad eu crybwyll yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol ai peidio. Nododd S Combe fod rhai o'r materion a godwyd wedi eu crybwyll mewn cyfarfodydd eraill, ac felly ni fu'r trafodaethau hyn yn rhan o'r prosesau ffurfiol o wneud penderfyniadau. Ychwanegodd nad oedd bodolaeth prosesau cadarn o wneud penderfyniadau ond yn effeithiol pan fo ymddygiad priodol yn cael ei arddangos er mwyn sicrhau bod materion yn dod i sylw'r Bwrdd. O hyn ymlaen, argymhellodd S Combe fod gofyn i'r aelodau annibynnol gyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth a sicrwydd (wedi eu noddi gan aelodau o'r Tîm Gweithredol) wrth dderbyn gwybodaeth o adroddiadau. Ychwanegodd fod rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod ganddo raglen ddatblygu gadarn hefyd, ac awgrymodd y dylid ystyried cytuno ar 'reolau sylfaenol' o ran ymddygiad yn ystod cyfarfodydd.

Cytunodd aelodau fod angen ymateb cadarn i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad, a bod angen i'r ymateb hwnnw ystyried y problemau hynny a gafodd eu crybwyll yn yr adroddiad ond nad oeddynt yn destun argymhellion.

Gofynnodd yr aelodau annibynnol i S Hopkins a oedd y Bwrdd bellach yn deall yr heriau oedd yn bodoli mewn gwasanaethau, ac yn benodol, lle bo problemau diogelwch, a oedd y Bwrdd yn deall y broses o wneud penderfyniadau yr oedd angen ei dilyn. Datganodd y Prif Weithredwr y cafodd problemau o'r fath eu codi gyda'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli (y Bwrdd Gweithredol gynt), a bod gan y Bwrdd Rheoli bellach aelodaeth ehangach er mwyn osgoi gwneud penderfyniadau yn ynysig. Fodd bynnag, cydnabu bod mwy o waith i'w wneud. Dywedodd Sharon Hopkins fod prosesau mewnol wrthi'n cael eu cryfhau ymhellach yn dilyn penodiad Ysgrifennydd newydd i'r Bwrdd, a bod cyfarfodydd Bwrdd bellach yn cael eu cynnal yn gyhoeddus cyn unrhyw gyfarfod preifat o'r Bwrdd (dim ond mewn amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau hynny y mae cyfarfodydd preifat yn cael eu cynnal). Cadarnhaodd Sharon Hopkins hefyd fod system newydd wedi cael ei roi ar waith i rannu adroddiadau drafft o arolygiadau ag aelodau'r Bwrdd, mewn modd diogel ac amserol.

Nododd M Longley wrth grynhoi fod aelodau'r Bwrdd yn derbyn yr holl argymhellion yn yr adroddiad, a diolchodd i S Combe am ei adolygiad. Cydnabu pwysigrwydd cymryd camau brys er mwyn sicrhau nad oedd y sefydliad yn ymateb mewn modd amhriodol i negeseuon am safon y gofal iechyd a ddarperir i'r boblogaeth leol fyth eto.

Awgrymodd M Longley y dylai Bwrdd gomisiynu gwaith ar frys i nodi sut y bydd y sefydliad yn ymateb i'r wers hon, er mwyn i'r Bwrdd allu ei drafod a'i fabwysiadu erbyn ei gyfarfod nesaf ar y 30ain o Ionawr 2020. Dywedodd y

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 1.5.3b

dylai hyn gael ei wneud gan Ysgrifennydd y Bwrdd ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Aelod Annibynnol (cyfreithiol), ac y dylai gynnwys tair elfen: byddai'r gyntaf yn cynnwys ymateb manwl i bob un o'r awgrymiadau yn yr adroddiad. Dywedodd M Longley fod angen gweithdrefnau manwl, trwyadl a chadarn a fyddai'n sicrhau bod yr ymateb i adroddiadau fel hwn yn agored, yn dryloyw ac yn amserol. Dywedodd M Longley fod y sefydliad yn barod wedi gwneud newidiadau yn y maes hwn ond bod angen mwy o waith. Dywedodd fod y Bwrdd yn croesawu'r holl wybodaeth am y gofal a ddarperir a'i fod yn ddiolchgar amdani, er mor anodd oedd y negeseuon.

Yn ail, dywedodd M Longley fod angen mynd i'r afael â'r modd y mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio. Byddai hyn yn amlinellu'r gwerthoedd y mae angen iddynt eu dilyn, ac yn nodi bod tîm agored, hunanfeirniadol yn rhan annatod o'r gwaith ar werthoedd ac ymddygiad sy'n cael ei gyflwyno ar draws y Bwrdd. Yn olaf, cynigiodd M Longley fod y Bwrdd yn ystyried a oes angen cymryd camau pellach mewn perthynas â'r digwyddiadau penodol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Adlewyrchodd M Longley ar y cyfleoedd i ddysgu a godwyd a phwysigrwydd croesawu gwybodaeth ac adborth er mwyn gallu datrys unrhyw ddiffygion.

Talodd M Longley deyrnged i Emily Brace (y Fydwraig Ymgynghorol ar Secondiad ar y pryd) a Kerri Feeney (Pennaeth Bydwreigiaeth ar y pryd) ar ran y Bwrdd i gyd, a chwaraeodd ran hanfodol a phroffesiynol wrth ganfod problemau pwysig yn ymwneud ag adrodd ar ddigwyddiadau difrifol yn y gwasanaeth mamolaeth, ynghyd â nifer o faterion eraill oedd yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar ansawdd y gofal a ddarperir i famau a'u babanod. Dywedodd fod y ddau unigolyn wedi ymchwilio i'r problemau ac wedi codi eu pryderon yn 2018 mewn modd priodol, dyfal a dewr. Datganodd M Longley ei fod yn hynod falch bod y ddau unigolyn wedi cytuno i'w gais iddynt barhau yn rhan o'r gwaith i wneud newidiadau gweithdrefnol a diwylliannol, â'r nod o sicrhau na fydd y Bwrdd yn methu ag hymateb i wybodaeth bwysig am broblemau o ran ansawdd gofal fyth eto.

Wrth gloi'r cyfarfod, dywedodd Marcus Longley ei bod yn edifar iawn gan y Bwrdd Iechyd nad oedd eu Gwasanaethau Mamolaeth wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig am nifer o flynyddoedd. Diolchodd i'r aelodau hynny o'r cyhoedd a roddodd o'u hamser i ddod i'r cyfarfod, gan ddweud y byddai'r sefydliad yn cymryd camau pellach i gasglu adborth am wasanaethau gan ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny.

PENDERFYNWYD:

- **NODWYD** yr adroddiad;
- derbyniodd y Bwrdd gynllun gweithredu mewn perthynas ag argymhellion yr adolygiad i'w gyfarfod Ionawr 2020.

BIP/B/19/178 Nid oedd unrhyw faterion pellach, a chafodd y cyfarfod ei gloi gan nodi y bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd ar y 30ain o Ionawr 2020.

LLOFNODWYD:.....

Yr Athro Marcus Longley, Cadeirydd

DYDDIAD:.....